Cyngor Celfyddydau Cymru

# Rhaglen Wytnwch
# Portffolio Celfyddydol Cymru

Mehefin 2016

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

# Rhaglen Wytnwch Portffolio Celfyddydol Cymru

## Beth yw'r Rhaglen Wytnwch a pham y byddai o ddiddordeb i mi a'm sefydliad?

Mae'r adeg anodd a heriol yn enwedig i sefydliadau celfyddydol. Mae'n ddigon posibl eich bod yn ei chael yn fwy anodd atynnu arian o'ch hen ffynonellau neu fod eich cynulleidfaoedd yn cilio am fod yr esgid fach yn gwasgu. Mae gorbenion yn cynyddu ac mae cadw eich incwm yn iach ar hyd y flwyddyn drwy werthu tocynnau'n her barhaus. Efallai fod ystod o faterion eraill sy'n eich rhwystro rhag llwyddo ac yn atal eich sefydliad rhag gwireddu ei uchelgais creadigol.

Byddai pob sefydliad fwy na thebyg yn cael budd o fynd yn fwy gwydn. A ninnau'n sefydliadau celfyddydol, credwn mai mewn ffordd greadigol a chydweithiol yw'r orau o ran eich amddiffyn eich hun rhag llawer o'r pwysau cyfredol.

---

Nid buddsoddiad untro o arian yw swmp a sylwedd y rhaglen hon, ychwaith. Ni chredwn mai felly yw'r ffordd fwyaf effeithiol o greu newid ac amddiffyn eich sefydliad rhag y dyfodol. Eithr hoffem ddefnyddio'r cyfle hwn i archwilio'r materion a, gobeithio, gael atebion i'r problemau. Mae'n bosibl wedyn y deuai buddsoddiad yn nes ymlaen ond nid dyna fan cychwyn y rhaglen.

---

Dadansoddi fydd y cam cyntaf un. Hoffem adolygu eich sefydliad gyda chi, gan ganolbwyntio ar y meysydd a nodasoch yn anodd.

Gwyddom yn y rhan fwyaf o achosion na fydd ateb hawdd ei gael. Wrth eu natur mae sefydliadau celfyddydol yn amrywiol a chymhleth ac felly bydd yr allwedd i ddatgloi eu posibiliadau a chyflawni gwytnwch yr un mor amrywiol. Mewn rhai achosion, gallai fod ateb hawdd megis buddsoddiad cyfalafol neu hyfforddiant arbenigol ond gydag eraill bydd angen cynllun gwaith mwy strwythuredig ac wedi'i deilwra i ddiwallu eu hamcanion yn y tymor hwy.

> "Nod y rhaglen hon yw bod yn bartneriaeth gydweithredol a chydweithiol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac aelodau o'r Portffolio Celfyddydol newydd. Gweithia'r ddwy ochr tuag at greu sefydliad gwell a mwy gwydn. Gwyddom y gallai hyn fod yn heriol ond hyderwn gael canlyniadau tra chadarnhaol."

## Sut y bydd y rhaglen yn gweithio?

Nid cynllun grant traddodiadol mohono. Gofynnwn ichi gyflwyno 'datganiad o ddiddordeb' cychwynnol ac ynddo y dylid nodi meysydd i'w harchwilio'n bellach. Ni chynnwys y datganiadau hyn geisiadau uniongyrchol am arian ac mewn rhai achosion, diwedd y gân o bosibl fydd cynnig cymorth ymarferol yn hytrach nag arian. Mewn achosion eraill, cymysgedd o'r ddau a gynigir o bosibl. Ac yn yr achosion hynny y mae cam nodi'r problemau'n mynd yn rhan hanfodol o'r broses.

Tynnwn ar sgiliau ein grŵp allanol o ymgynghorwyr arbenigol i'n cynorthwyo wrth ddarparu'r rhaglen uchelgeisiol hon. Mae'n bosibl y caiff pobl a dderbynnir i'r  rhaglen y cyfle i weithio gyda'r ymgynghorwyr hyn mewn grŵp, tîm neu'n unigol dros gyfnod y cynllun. I dargedu'r meysydd penodol a nodasoch, recriwtiwn dîm o ymgynghorwyr arbenigol gydag ystod eang o sgiliau dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym y cyngor gorau a fydd ar gael pan fydd ei eisiau.

Dyma'r math ar senario y gellwch ei ystyried (ymhlith eraill):

- Adolygiadau llywodraethu i gryfhau eich sefydliad o'r brig i lawr.
- Archwiliadau sgiliau i sicrhau bod y bobl iawn yn y lleoedd iawn i gyflawni eich amcanion.
- Adolygiadau sefydliadol i gryfhau eich tîm a gwella eich effeithlonrwydd.
- Adolygiadau ariannol a busnesi nodi meysydd y gellid eu gwella.
- Mentrau marchnata i gael rhagor o bobl i fod ynghlwm wrth eich gwaith ac o bosibl i gynyddu incwm.
- Cymorth gyda mentrau arbennig megis gwireddu posibiliadau rhyddhad treth y Llywodraeth neu gynlluniau lleihau cyfraddau a allasai gael effaith fawr yn gyfnewid am ychydig o wariant.
- Gwneud eich sefydliad yn fwy cynaliadwy'n amgylcheddol a lleihau costau ynni
- Adolygiadau o wasanaethau masnachol a gwariant ategol i wella manwerthu a/neu arlwyo a all ddarparu incwm ychwanegol.

“Fe'ch anogwn i feddwl yn greadigol a dechrau rhyw sgwrs ddifyr a arweinia - gobeithio - at ganlyniadau llawn dychymyg y gallwn eu rhannu â'r sector.”

Drwy ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb o ran ymgyfranogi, gallwn ddod i ben â gwneud y canlynol:

- dadansoddiad cychwynnol o'r portffolio yn gyffredinol, gan nodi lle mae materion cyffredin sy'n effeithio ar grŵp yn y portffolio. Bydd hyn yn adeiladu ar y wybodaeth a gasglasom eisoes drwy eich cyflwyniadau Adolygiad Buddsoddi.

- Y cyfle i deilwra cyfres briodol o sesiynau gweithdy cynnar gan ddod â sefydliadau at ei gilydd mewn fforwm sy'n caniatáu trafod meysydd cyffredin a rhannu gwybodaeth.

| |
|---|
| Bydd cam nesaf y broses yn dibynnu ar ganlyniad y gweithdai hyn. Dychmygwn y bydd tri senario tebygol: |
| • Mewn ychydig o achosion, mae'n bosibl y bydd y cyfle ar ei ben ei hun i drafod materion gyda chydartistiaid a gweithwyr gwadd yn darparu ateb yn syth, neu gyrraedd y casgliad nad yw'r rhaglen ar hyn o bryd yn gweddu. Gallai llwybrau eraill fod yn fwy priodol. |
| • Gallai 'teuluoedd’ o sefydliadau nodi maes penodol yr hoffent gael cymorth gydag ef. Gall hyn fod yn ateb syml untro a allai fod yn:<br>– Cymorth ymarferol oddi wrth ein timoedd o ymgynghorwyr proffesiynol.<br>– Y cyfle i ymgeisio am arian grant os y llwybr hwnnw yw'r un mwy priodol. Cynnwys hyn hygyrchedd i raglen Cyfalaf Loteri Cyngor y Celfyddydau.<br>– Hygyrchedd i raglenni arweinyddiaeth/hyfforddiant wedi'u teilwra |
| • Gallai fod gan grŵp arall faterion mwy cymhleth neu heriol sydd angen ffordd wedi'i theilwra o fynd ati i'w datrys. Gwahoddwn felly y sefydliadau hyn i barhau i weithio gyda ni a'n timoedd ymgynghorol i lunio cynllun camau gweithredu er newid. Er inni ddisgwyl y rhan fwyaf o aelodau'r rhaglen i fod wedi cyflawni'r cam hwn erbyn Mawrth 2017, gallai fod ar sefyllfaoedd mwy cymhleth angen cyfnod ehangach i ddiwallu eu hamcanion. Mewn rhai achosion, gallai rhan o'r cynllun camau gweithredu ymwneud ag ymgeisio am arian Cyngor Celfyddydau Cymru i neud darnau penodol o waith |

## Pwy sy'n gymwys i ddatgan diddordeb yn y rhaglen?

Ar gyfer y rownd ddethol gyfredol, dim ond aelodau o Bortffolio Celfyddydol Cymru 2016/17 a all ddatgan diddordeb

## Sut y bydd eich sefydliad yn symud drwy'r rhaglen?

Hoffwn gynorthwyo cynifer o sefydliadau â phosibl ac felly hoffem gynnwys yr holl sefydliadau y gallwn gynnig cymorth iddynt.

Rydym yn debygol o'ch gwahodd i drafod eich datganiad o ddiddordeb yn bellach os teimlwn fod gennych y canlynol:

1. Mater dilys y bydd ei ddatrys yn cryfhau eich sefydliad yn ei waith neu sefydlogi ei sefyllfa ariannol

2. Yr ymrwymiad i weithio gyda ni i ddatrys y mater hwn

3. Disgwyliad realistig o'r cymorth y gallwn ei ddarparu gyda chyllideb gyfyngedig

Serch hynny, penderfynir ar symud sefydliadau ymlaen at gamau hwyrach y rhaglen o ystyried y meini prawf hyn:

- nodi a chydnabod yn glir y materion a wynebwch. Ar y cam hwn ni ddisgwyliwn ateb parod. Dyna'r hyn yr hoffwn ei archwilio yn ystod camau cynnar y rhaglen.

- Ymwneud ac ymrwymiad o ran eich Bwrdd, yn ogystal â'ch Uwch Tîm Rheoli. Mae hyn yn hanfodol os ydych am ddwyn y maen i'r wal

- Gweld llwyddiant yn yr hirdymor yn hytrach nag ateb yn y byr dymor sy'n trwsio pethau dros dro.

Eich parodrwydd i fod yn agored am sut olwg a allai fod ar lwyddiant, gan gynnwys y ffaith nad chwistrelliad o arian o bosibl fyddai'r ateb mwyaf priodol

## Pryd y bydd y cynllun ar waith?

Bydd y cynllun yn fyw tua diwedd Mehefin 2016 a derbyniwn ddatganiadau o ddiddordeb tan 22 Gorfennaf 2016.

Er mwyn ymwneud â'r cynllun, bydd yn rhaid i aelodau o'r portffolio fod wedi datgan eu diddordeb.


Gan ddibynnu ar y materion a nodir yn ystod y rhaglen, rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o bobl a dderbynnir i’r rhaglen yn gorffen y rhaglen cyn Mawrth 2017. Fel y trafodir uchod, gallai fod rhai sefyllfaoedd mwy cymhleth na'i gilydd. Nodir y rhain yn unigol.

Dengys y deiagram isod y camau posibl.

## Felly beth sydd angen imi ei wneud nesaf?

Dylai eich Bwrdd a'ch Tîm Rheoli drafod beth yw'r rhwystrau (yn eu barn) i'ch sefydliad symud yn ei flaen a llenwi'r ffurflen seml, Datganiad o Ddiddordeb cyn y dyddiad cau, sef 22 Gorffennaf 2016.

Os teimlwn fod pwrpas i drafod eich materion yn bellach, cewch wahoddiad i fod yn rhan o'r cam nesaf. Bwriadwn gadw'r broses gychwynnol mor syml a hyblyg â phosibl oherwydd y posibiliadau o newidiadau a sefyllfaoedd unigol. Dychmygwn, yn y lle cyntaf, y caiff pobl a dderbynnir i’r rhaglen wahoddiad i weithdy gyda phobl eraill a dderbynnir hefyd.


Datganiad o ddiddordeb
Cam nodi problem (gweithdy)
Cam y cynllun camau gweithredu
Pawb a dderbynnir i amlinellu'r materion
Materion mwy cymhleth yn gofyn am waith pellach
Llunio cynllun camau gweithredu
Cyflwyno cynllun camau gweithredu a chael eich dewis am gymorth 'terfynol'
Ateb yn y fan a'r lle yn cael ei ystyried yn briodol - dyfarniad/ cais
Cael eich dewis am gymorth gyda syniadau i drawsnewid pethau
Cynllun camau gweithredu
Cyflwyno cynllun camau gweithredu a chael eich dewis am gymorth pellach